LYNN-THOMAS, Syr JOHN (1861 - 1939), llawfeddyg

Enw: John Lynn-thomas
Dyddiad geni: 1861
Dyddiad marw: 1939
Priod: Mary Rosena Lynn-Thomas (née Jenkins)
Rhiant: Evan Thomas
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: llawfeddyg
Maes gweithgaredd: Meddygaeth
Awdur: Arthur Rocyn Jones

Ganwyd 10 Medi 1861, yn Cwmgefeile, Llandysul, Sir Aberteifi, mab Evan Thomas, amaethwr. Cafodd ei addysg feddygol yn y London Hospital; M.R.C.S. 1886, F.R.C.S. 1892. Enillodd yr Hutchinson Prize, 1890, am ei draethawd ar doriadau'r penglog. Dewiswyd ef yn llawfeddyg cynorthwyol yn y Cardiff Royal Infirmary, 1895, a'i ddyrchafu'n llawfeddyg yno wedi hynny; efe, y mae'n debyg, oedd y llawfeddyg ymgynghorol cyntaf yng Nghymru. Datblygodd dechneg eithriadol pan oedd yn gweithredu fel llawfeddyg ymarferol, ac ysgrifennodd lawer o erthyglau gwreiddiol. Ymunodd â'r Welsh Hospital yn Ne Affrica a ffurfiwyd yn ystod y rhyfel â'r Boeriaid, a daeth yn bennaeth arni; cafodd ei wneuthur yn C.B. Yn rhyfel 1914-8 bu'n gyrnol yng ngwasanaeth meddygol y fyddin a daeth yn ' Deputy-Inspector of Military Orthopaedics, Western Command.' Sefydlodd y Prince of Wales Hospital, Caerdydd, i dderbyn milwyr a morwyr a gollasai rai o aelodau eu cyrff; wedi hynny helaethwyd yr ysbyty hwnnw er mwyn iddo fedru trin cripiliaid eraill, a thrwy hynny daeth yn ysbyty orthopedig. Cafodd Lynn-Thomas ei wneuthur yn C.M.G. yn 1917, a daeth yn farchog (K.B.E.) yn 1919. Priodod, 1892, Mary Rosena, unig ferch Edward Jenkins, Caerdydd. Ymneilltuodd yn 1921 i blasty Llwyndyrus, Llechryd, Sir Aberteifi; daeth yn ddirprwy-raglaw yn Sir Aberteifi. Wedi iddo symud i Lwyndyrus dechreuodd gymryd diddordeb arbennig yn archaeoleg a chyn-hanes gwaelod dyffryn Teifi. Datblygodd syniadau gwreiddiol yngl n â phwysigrwydd y rhan honno o'r wlad yn hanes hynafol Cymru, a chyhoeddodd *The Key of All Wales* yn mynegi ei syniadau a'i olygiadau. Eithr ni allai archaeolegwyr proffesiynol dderbyn ei gasgliadau. Yr oedd yn r golygus, o bersonoliaeth gref a thrawiadol. Bu farw 21 Medi 1939 yn Llwyndyrus.

Awdur

Arthur Rocyn Jones

Ffynonellau

British Medical Journal, 1939, ii, 708

The Lancet, 1939, ii, 808

Darllen Pellach

J. Austin Jenkins, W. T. Pike (ed.), *South Wales and Monmouthshire at the opening of the twentieth century: Contemporary biographies* (Brighton 1907), t.195

Gweithiau

LlGC: Casgliad J L Thomas

LlGC: Llyfr Ffoto J L Thomas Album 2

LlGC: Llyfr Ffoto J Lynn-Thomas Album 3

LlGC: Llyfr Ffoto J Lynn-Thomas Album 4

LlGC: Llyfr Ffoto J Lynn-Thomas Album 5

LlGC: Llyfr Ffoto J Lynn-Thomas Album 6

LlGC: Llyfr Ffoto J Lynn-Thomas Album 7

LlGC: Llyfr Ffoto J L Thomas Album 8

LlGC: Llyfr Ffoto J L Thomas Album 9: Algerie

LlGC: Llyfr Ffoto J Lynn-Thomas Album 10

LlGC: Llyfr Ffoto J L Thomas Album 11

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733869

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu